

cefnogipobl
supportingpeople



supporting independence
cefnogi annibyniaeth



Cynllun Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019 – 2020



Fersiwn hawdd ei darllen



Mae Cefnogi Pobl yn gweithio i atal a mynd i'r afael â digartrefedd



Rydyn ni'n gweithio ar draws Cymru ac yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru



Mae ein hardal yng ngorllewin Cymru yn cynnwys dros 4,000 milltir sgwâr



Mae bron 516 mil o bobl yn yr ardal hon



Mae bron i 160 mil yn siarad Cymraeg



Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i roi'r gefnogaeth iawn i'r rhai sydd ei hangen



Mae gennym ni dros £17 miliwn i'w wario ar gefnogi pobl




Yn 2017 ysgrifennon ni gynllun am yr hyn yr ydyn ni eisiau ei wneud



Mae grant newydd o'r enw Grant Cynnal Tai yn dechrau ym mis Ebrill 2020



Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siwr ei fod yn rhedeg yn rhwydd



Rydyn ni'n gweithio ar y pethau y dywedon ni y bydden ni'n eu gwneud rhwng 2017 a 2020.



1 Gwneud gwell gwasanaethau
am y pris iawn



Cynllunio'n ofalus sut i ddarparu'r
gwasanaethau iawn



Gwneud llwybr sengl i mewn i'n gwasanaethau



Torri i lawr ar waith papur a systemau
sy'n arafu pethau




Gwneud yn siwr nad yw amser ac arian yn cael
eu gwastraffu



Rydyn ni'n gwneud ffordd sy'n canolbwyntio ar
yr unigolyn i wirio pa mor dda yw
gwasanaethau



2 Cynllunio a darparu gwasanaethau



Rhannu'r pethau yr ydyn ni'n eu dysgu ar draws y rhanbarth



Cynnwys pob grŵp o bobl, beth bynnag yw eu gwahaniaethau



Gweithio ar draws siroedd yn yr un ffyrdd



3 Gweithio gyda'n gilydd ac atal problemau



Cynllunio gwasanaethau ar draws y rhanbarth gyda sefydliadau eraill



Cefnogi pobl a phrosiectau pan fyddan nhw'n trio a phrofi ffyrdd newydd o weithio



Gweithio gyda phobl ar draws y rhanbarth i atal cam-drin a thrais



Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill yn y rhanbarth




4 Cynnwys y bobl iawn



Dod o hyd i ffyrdd gwell o weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i'n helpu ni gynllunio yn y dyfodol



Parhau i ymwneud â rhwydweithiau, fforymau ac unigolion



**Dyma'r pethau rydyn ni'n meddwl
amdanyn nhw bob amser pan fyddwn ni'n
cynllunio gwasanaethau:**



- **Atal ac Ymyrraeth Gynnar**



Atal yw gwneud yr hyn a allwn ni i wneud yn siwr
nad yw problemau'n digwydd.



Ymyrraeth Gynnar yw rhoi'r gefnogaeth iawn
cyn gynted â phosibl.



- **Gwerth am Arian**



Mae Gwerth am Arian yn golygu talu'r arian
cywir am y pethau yr ydyn ni'n eu cael



- **Llesiant**



Llesiant yw teimlo'n iach ac yn dda amdanon ni'n hunain a'n bywydau.



- **Partneriaeth a Chyd-gynhyrchu**



Mae partneriaeth yn golygu gweithio gyda'n gilydd

Cyd-gynhyrchu yw creu rhywbeth gyda'n gilydd.



- **Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Bod yn Hyblyg**



Mae Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn golygu gwneud pethau mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.



- **Annibynnol**



Mae annibyniaeth yn golygu gwneud cymaint droson ni'n hunain ag y gallwn ni.



- **Hygyrchedd**



Mae hygyrchedd yn golygu gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau.



Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:



Ar gyfer Sir Gâr - Alun Jones

aldjones@carmarthenshire.gov.uk



Ar gyfer Ceredigion - Gary Proven

gary.proven@ceredigion.gov.uk



Ar gyfer Sir Benfro - Joy James

Joy.James@pembrokeshire.gov.uk



Ar gyfer Powys - Adrian Jones

adrian.jones2@powys.gov.uk



Ein Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yw

Beverly B Davies

bbdavies@carmarthenshire.gov.uk



Gwnaed y ddogfen Hawdd ei Darllen hon gan ddefnyddio Photosymbols